COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR DATBLYGIAD A RHEOLI A GYNHALIWYD O BELL TRWY TIMAU MICROSOFT DYDD IAU, 27 IONAWR 2022, AM 14:00

Presennol

Y Cynghorydd G Thomas – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| JPD Blundell | N Clarke | RJ Collins | SK Dendy |
| DK Edwards | MJ Kearn | JC Spanswick | RME Stirman |
| MC Voisey | KJ Watts | RE Young | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

RM Granville, A Hussain a/ac CA Webster

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Rhodri Davies | Rheolwr Datblygu a Rheoli Adeiladu |
| Jane Dessent | Cyfreithiwr |
| Craig Flower | Arweinydd Tim Cymorth Thechnegol |
| Mark Galvin | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd Dros dro |
| Hayley Kemp | Prif Swyddog Cynllunio |
| Robert Morgan | Uwch Swyddog Rheoli Datblygu Trafnidiaeth |
| Jonathan Parsons | Rheolwr Grŵp Datblygu |
| Andrew Rees | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Leigh Tuck | Swyddog Rheoli Datblygu Trafnidiaeth |

553. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Fe wnaeth y Cynghorydd N Clarke ddatgan buddiant oedd yn rhagfarnu yn eitem 7 ar yr agenda, gan ei bod wedi gwrthwynebu'r cais. Gadawodd y Cynghorydd Clarke y cyfarfod tra roedd yr eitem hon yn cael ei thrafod.

554. CYMERADWYO COFNODION

PENDERFYNWYD: Bod Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygu, dyddiedig 9 Rhagfyr 2021, yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir.

555. SIARADWYR CYHOEDDUS

Fe wnaeth yr Aelod / y Gwr(aig) gwadd yn y cyfarfod arfer ei hawl i siarad ar y cais y sonnir amdano isod:-
y Cynghorydd N Clarke - Aelod y Ward (gwrthwynebydd) - P/20/953/FUL
Geraint John – Asiant yr Ymgeisydd - P/20/953/FUL

556. TUDALEN DDIWYGIADAU

PENDERFYNWYD: Bod y Cadeirydd yn derbyn Tudalen Ddiwygiadau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu fel eitem frys, yn unol â Rhan 4 (paragraff 4) o Reolau Gweithdrefnau'r Cyngor, er mwyn i'r Pwyllgor allu ystyried newidiadau angenrheidiol i adroddiad y Pwyllgor, er mwyn cymryd i ystyriaeth rai sylwadau ac adolygiadau hwyr y mae angen eu trafod.

557. ARWEINIAD Y PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU

PENDERFYNWYD: Nodi'r crynodeb o Arweiniad y Pwyllgor Rheoli Datblygu fel y'i cyflwynwyd yn adroddiad Cyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau.

558. P/20/953/FUL - PARC GWERSYLLA A THEITHIO BRODAWEL, MOOR LANE, PORTHCAWL CF36 3EJ

PENDERFYNWYD: Caniatáu'r cais uchod, gyda'r Amodau sydd wedi eu cynnwys yn adroddiad Cyfarwyddwr Corfforaethol– Cymunedau:-

Cynnig

Lleoli 25 o garafanau sefydlog, y seilwaith cysylltiedig, gwelliannau ecolegol a thirlunio, a chadw 68 o leiniau ar gyfer teithwyr (gan arwain at gyfanswm o 93 o unedau - gostyngiad o 57 o leiniau i deithwyr)

Yn amodol ar yr Amodau 15 ac 16 ychwanegol a ganlyn:-

15. Ni chaniateir unrhyw ddatblygiad, gan gynnwys unrhyw waith clirio safle, hyd nes y bydd Datganiad y Dull Adeiladu wedi cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Cydymffurfir â Datganiad y Dull cymeradwy drwy gydol cyfnod clirio'r safle a'r cyfnod adeiladu. Bydd y Datganiad yn darparu ar gyfer:
i. Llwybr ar gyfer traffig adeiladu HGV i/o'r safle er mwyn osgoi pentref Notais;
ii. nodi math a nifer y cerbydau a ddefnyddir yn ystod y gwaith adeiladu;
ii. parcio cerbydau gweithwyr y safle ac ymwelwyr;
iv. llwytho a dadlwytho peiriannau a deunyddiau;
v. storio offer a deunyddiau a ddefnyddir wrth adeiladu'r datblygiad;
vi. manylion ynghylch sut a ble y bydd y cabanau pren yn cael eu rhoi at ei gilydd a rhaglennu gwaith o'r fath;
vii. cyfleusterau golchi olwynion;
viii. mesurau i reoli allyriadau llwch a baw yn ystod y gwaith adeiladu;
ix. darparu rheolaeth dros dro ar draffig a cherddwyr ar hyd y llwybr adeiladu y cytunwyd arno.

**Rheswm:** Er budd diogelwch y briffordd.

16. Ni chaniateir dechrau unrhyw waith datblygu hyd nes y bydd Cynllun Rheoli Traffig a Chyflawni ar gyfer y safle wedi cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gytuno'n ysgrifenedig ganddo. Bydd yr holl ymwelwyr sy'n cyrraedd ac yn gadael a symudiadau cerbydau er mwyn gwasanaethu a danfon i'r safle yn cael eu gwneud yn unol â'r Cynllun Traffig a Chyflawni y cytunwyd arno, unwaith y bydd y datblygiad yn cael ei ddefnyddio'n fuddiol.

**Rheswm:** Er budd diogelwch y briffordd.

559. APELIADAU

PENDERFYNWYD: (1) Nodi'r Apeliadau a dderbyniwyd ers adroddiad diwethaf Cyfarwyddwr Corfforaethol - y Cymunedau i'r Pwyllgor fel y'u rhestrwyd yn yr adroddiad.

(2) Gwrthod yr Apeliadau a ganlyn, y penderfynwyd arnynt gan yr Arolygydd(wyr) a benodwyd gan Weinidogion Cymru:-

| **Rhifau'r Apeliadau** | **Testun yr Apeliadau:** |
|---|---|
| A/21/3277328 (1925) | Dymchwel Ystafell Ymolchi/Toiled a Storfa bresennol ar y Llawr Gwaelod; Adeiladu Estyniad Ochr/Cefn Deulawr; Estyniad Un Llawr i'r Cefn Gyda Balconi uwchben; Estyniad Ochr Un Llawr; Garej ar wahân Glandyrys, Cae Helyg, Bryncethin (Gwrthodwyd y cais costau hefyd); |
| A/21/3271534 (1927) | Cadw Cynhwysydd Dur Cloadwy, tir y tu ôl i Gerddi'r Jiwbilî 1 a 2 ac yn agos i'r Barn, Porthcawl. |
| A/21/3278527 (1928) | Newid Defnydd o Storfa Datw i Iard Adeiladwyr a Gweithdy, tir y tu ôl i Erddi'r Jiwbilî 1 a 2 ac yn agos i'r Barn, Porthcawl |
| A/21/3281824 (1930) | Hysbysiad ymlaen llaw ar gyfer Monopol 20.0 metr arfaethedig Cam 8, gyda Chabinet o gwmpas y gwaelod, a gwaith ategol cysylltiedig, tir ger Farm Foods, Parc Manwerthu Pentre Felin, Tondu |
| A/21/3280373 (1926) | Amrywio Amod 1 o Ganiatâd Cynllunio Cyf. P/14/65/RIX i ganiatáu danfoniadau i'r Storfa rhwng 06:00 a 22:00 o'r gloch o ddydd Llun i ddydd Sadwrn a rhwng 07:00 a 20:00 o'r gloch ar ddydd Sul a Gwyliau Banc am gyfnod o 6 mis, Aldi, Heol Llynfi, Maesteg. |

3) Bod yr Arolygwr, a benodwyd gan Weinidogion Cymru i benderfynu ar yr apêl ganlynol, wedi rhoi cyfarwyddyd bod yr Apêl i gael ei chaniatáu yn ddarostyngedig i Amodau:-

| | |
|---|---|
| D/21/3281863 | Estyniadau cefn dau lawr/un llawr 4 Bower Street, Mynydd Cynffig. |

560. COFNOD HYFFORDDIANT

PENDERFYNWYD: Nodi'r sesiynau hyfforddi, y manylwyd arnynt yn adroddiad Cyfarwyddwr Corfforaethol - y Cymunedau, ar amrywiol bynciau yn ymwneud â Chynllunio a Datblygu dros y misoedd i ddod.

561. EITEMAU BRYS

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 14:44